Taith gerdded byd natur Capel y Waun

Cymerwch ofal wrth groesi ffyrdd ac yn agos i'r afon.
Dylid cadw cŵn o dan reolaeth gaeth.

Mynediad: Mae'r llwybr o'r maes parcio i Barc Capel y Waun ac o amgylch y parc yn addas i gadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio (edrychwch ar y map). Ond mae rhannau o'r llwybr drwy'r coetir yn anwastad ac mae'n gallu bod yn fwdlyd mewn mannau.

Gwenoliaid y bondo



I gael mwy o wybodaeth am y dref a theithiau cerdded eraill i'w mwynhau o gwmpas yr ardal edrychwch ar ein gwefan www.rhayader.co.uk

I gael gwybod mwy am ein bywyd gwyllt, gan gynnwys pethau a welwyd yn ddiweddar, ewch i wefan y gymdeithas natur leol www.rhayaderbynature.wordpress.com

Produced by Rhayader 2000 Ltd
Assisted by Rhayader by Nature

Rhayader by Nature

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government

Design and illustration:
www.bethknightillustration.co.uk
Printed by IMPRINT (01686 624137)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales

Powys

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

Rhaeadr Gwy - Rhayader

The Wildlife Centre of Wales — Canolfan Byd Natur Cymru

Teithiau Cerdded Byd Natur Tref Rhaeadr Gwy

Mae yna amrywiaeth ryfeddol o blanhigion ac anifeiliaid gwyllt yn byw ymysg adeiladau, parciau a gerddi tref Rhaeadr. Mae afon Gwy, sy'n llifo'n gyflym ac yn llawn clogfeini, yn mynd trwy'r dref gan gynnig coridor naturiol pwysig iawn y mae bywyd gwyllt yn teithio ar hyd-ddo, gan gyfoethogi'r dref er mwynhad pawb. Mae'r teithiau cerdded yn y gyfres hon o daflenni yn edrych ar amrywiaeth a harddwch y bywyd gwyllt ar ein trothwy.



Taith gerdded byd natur Capel y Waun

Cylchdaith yw hon sy'n dechrau yn y maes parcio ym mhen pellaf Gasworks Lane oddi ar Bridge Street, lle mae meinciau picnic ar lan yr afon. Cylchdaith tua milltir a chwarter (2 gilometr) o hyd o amgylch Parc Capel y Waun a mwnt y castell yw hon. Mae'n cymryd tua awr. Mae rhannau o'r daith gerdded yn addas i gadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio ac mae'r rhannau yma, ynghyd â disgrifiad ohonyn nhw, i'w gweld ar y map.

Po fwyaf y byddwch yn aros, edrych a gwrando, mwyaf y byddwch yn ei weld!